# NPORS N108 MEWP Boom (Rhan-Amser)

Mae cwrs NPORS N108 yn darparu hyfforddiant ac asesiad sylfaenol mewn gweithredu a chynnal a chadw Bwm Llwyfannau Gwaith Symudol Uchel (MEWP). Mae'n cwmpasu agweddau damcaniaethol ac ymarferol, gan gynnwys rheoliadau iechyd a diogelwch, archwiliadau cyn eu defnyddio, technegau gweithredu diogel, gweithdrefnau brys, adnabod peryglon ac asesiadau risg.

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sydd angen y wybodaeth a'r sgiliau ymarferol i weithredu Bwm MEWP yn ddiogel. Mae'n addas ar gyfer ymgeiswyr o bob gallu, gan gynnwys y rhai heb gyfarwyddyd ffurfiol blaenorol.

## Gofynion Mynediad

Rhaid i gyfranogwyr fod â dealltwriaeth dda o Saesneg llafar ac ysgrifenedig. I'r rhai sy'n ceisio Cerdyn CSCS NPORS, mae'n ofynnol iddynt basio Prawf Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd CITB o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Rhagolygon Gyrfa

Ar ôl cwblhau'n llwyddiannus, gall cyfranogwyr symud ymlaen i gyrsiau neu ardystiadau mwy uwch o fewn fframwaith NPORS, gan wella eu sgiliau a'u cymwysterau ar gyfer amrywiol rolau mewn adeiladu, diwydiannol a sectorau eraill.

## Modiwlau'r cwrs

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu:
– Gwybodaeth am y Diwydiant:
– Llawlyfr y Gwneuthurwr
– Cydrannau'r Peiriant
– Rheolyddion
– Gwiriadau Cyn-Weithredu
– Swyddogaethau Brys
– Gosod a Dadosod
– Ffurfweddu'r Peiriant

– Gwiriadau Diogelwch
– Symud Ardal Waith
– Mynediad i Dasgau
– Teithio gyda Llwyfan Wedi'i Godi
– Llwytho a Dadlwytho
– Gweithdrefnau Diwedd Shifft

## Asesiad

Caiff cyfranogwyr eu hasesu drwy gyfuniad o brofion damcaniaethol (cwestiynau agored a dewis lluosog) a phrofion ymarferol.

### DULL ASTUDIO

SC

### LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

### HYD Y CWRS

Undydd

### FFIOEDD

25/26 fees: £530